PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Budd-daliadau a Phethau i'w Hawlio- Rhieni Ifanc

## Canllaw i bobl ifanc

Adnodd 8 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Budd-daliadau a Phethau i'w Hawlio- Addysg
- Cyllidebu
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio
- Cynghorion Siopa am Fwyd

Prosiect Paratoi

**Beth allet ti ei gael (2021/2022)**

- Budd-dal Plant (plentyn cyntaf) **£21.15 yr wythnos**
- Budd-dal Plant (ail blentyn) **£14 yr wythnos**
- Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn **£500**

# BUDD-DALIADAU A GRANTIAU

Mae bod yn rhiant newydd yn gallu bod yn amser anodd ond gwerthfawr. Yma cei di wybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

## Budd-dal Plant

- Rwyt ti'n gallu hawlio budd-dal plant yn syth ar ôl genedigaeth dy blentyn.
- Byddi di'n cael taliad bob mis
- Bydd yn para o enedigaeth y plentyn nes ei fod yn 16 oed (neu'n 20 oed os bydd yn aros mewn addysg)

## Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn

- Os wyt ti ar fin cael plentyn ac rwyt ti'n cael budd-daliadau, mae'n bosib byddi di'n gallu hawlio'r grant yma.
- Mae angen i ti ei hawlio 11 wythnos cyn yr enedigaeth NEU o fewn 6 mis ar ôl yr enedigaeth
- Mae angen i weithiwr iechyd proffesiynol lofnodi dy gais

Mae'r ffurflen mae angen ei llenwi ar gael yma **https://www.gov.uk/sure-start-maternity-grant/how-to-claim**

I wneud cais, cer i'r wefan isod:

**https://www.healthystart.nhs.uk/**



## Talebau Cychwyn Iach

- Talebau yw'r rhain sy'n helpu gyda chostau ffrwythau, llysiau a llaeth ar gyfer dy blentyn
- Rwyt ti'n gallu gwneud cais am y rhain os wyt ti'n cael budd-daliadau penodol AC
- Os wyt ti'n feichiog neu mae dy blentyn o dan 4 oed.

**Llesiant**

- Mae bod yn rhiant newydd yn straen
- Mae meddwl yn bositif yn bwysig
- Mae'n debygol bydd cymorth ar gael trwy grwpiau mamau a babanod lleol
- I gael cynghorion ar ofalu am dy iechyd meddwl a'th lesiant meddwl:
- **https://platfform.org/cy/project/pobl-ifanc/**
- **https://youngminds.org.uk/**

# CYMORTH I DALU AM OFAL PLANT

Os wyt ti'n rhiant ifanc ac yn chwilio am waith, mae cael hyd i ofal plant yn gallu bod yn anodd. Yma rydyn ni'n tynnu sylw at y cymorth allai fod ar gael

## Dechrau'n Deg

Mae hwn yn brosiect sy'n cefnogi teuluoedd mewn rhai rhannau o Gymru.

- Mae'n gallu cynnig 2.5 awr o ofal plant y dydd bron trwy'r flwyddyn
- Pan fydd dy blentyn yn 2 neu'n 3 oed
- Maen nhw'n gallu cynnig cymorth arall fel dosbarthiadau magu plant
- Rhaid i ti fod yn byw mewn ardal côd post benodol

I gael rhagor o wybodaeth, siarad â'th ymwelydd iechyd



## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

- Mae gan bob awdurdod lleol Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Mae'r gwasanaeth yma'n rhoi cyngor a chymorth gyda nifer o faterion magu plant a gallan nhw roi cyngor i ti am y cymorth gofal plant gallet ti ei hawlio

I gael rhagor o wybodaeth:

- Rhondda Cynon Taf-

**https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ChildrenandFamilies/ParentandFamilySupport/Financialsupportforfamilies/FamilyInformationService/WhatistheFamilyInformationService.aspx**

I gael rhagor o wybodaeth, cer i:
**https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/**
Neu siarad â'th gynghorydd personol

## Gofal plant tra bod ti'n astudio

Os wyt ti'n ystyried mynd i'r brifysgol, falle gallet ti wneud cais am arian ar gyfer gofal plant
Fel rheol, bydd hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- Faint o arian sydd gen ti'n dod i mewn
- Pa fudd-daliadau rwyt ti'n cael
- Oedran dy blentyn
- Y math o gwrs a hyd y cwrs

## Gofal plant pan fyddi'n gweithio

- Os wyt ti'n cael Credyd Cynhwysol, gallet ti gael hyd at 85% o'th gostau gofal plant yn ôl.
- Gallai hyn fod yn gymaint â £646.35 y mis ar gyfer un plentyn
- **OND** mae'n rhaid i ti dalu am y gofal plant yn syth a'i hawlio'n ôl wedyn

**Grant Gwisg Ysgol**

Os yw dy blentyn yn cael prydau ysgol am ddim, gallet ti gael hyd at £125 am bob cais. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwisg ysgol a chwaraeon
- Offer ar gyfer teithiau tu allan i oriau ysgol
- Offer ar gyfer rhai gweithgareddau ysgol

# DY BLENTYN YN YR YSGOL

Ydy dy blentyn yn tyfu ac ar fin dechrau yn yr ysgol? Fel popeth arall, gall hynny gostio arian. Ond fe allet ti gael rhywfaint o gymorth

## Prydau ysgol am ddim

- Os wyt ti'n derbyn rhai budd-daliadau ac mae dy incwm o dan swm penodol, byddi di'n gallu hawlio prydau ysgol am ddim.
- Mae hyn yn sicrhau bod dy blentyn yn cael pryd twym, iach a maethlon bob dydd
- Hefyd, bydd ysgol dy blentyn yn cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi dy blentyn.



I wneud cais am brydau ysgol am ddim, siarad â rhywun yn ysgol dy blentyn

I wneud cais am grant gwisg ysgol:

- Rhondda Cynon Taf- speak to your child's school

## Brecwast Am Ddim

- Dylai ysgolion cynradd yr awdurdod lleol yn dy ardal ddarparu brecwast am ddim
- Mae ysgolion yn darparu brecwast iach, maethlon cyn dechrau'r diwrnod ysgol.
- I gael rhagor o wybodaeth siarad ag ysgol dy blentyn

## Grant Gwisg Ysgol

Os wyt ti'n cael prydau ysgol am ddim, mae'n bosib byddi di'n gallu cael grant gwisg ysgol hefyd.

Byddi di'n gallu cael hwn pan fydd dy blentyn ar fin dechrau yn y dosbarth

- Derbyn
- Blwyddyn 3

